# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 14 Mawrth 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
3 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Fframwaith Adfywio Economaidd ar gyfer De Ddwyrain Cymru

**C3 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fframwaith adfywio economaidd ar gyfer de-ddwyrain Cymru? (OAQ16297) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Mae fframwaith adfywio'r pum sir wedi'i baratoi mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru, a Dysgu ac Addysgu Cymru, i ddarparu ymateb cynhwysfawr ac integredig i'r problemau sy'n wynebu'r cymunedau a ddioddefodd yn sgîl cau gweithfeydd Corus. Mae'r fframwaith yn argymell mesurau i'r tymhorau byr, canolig a hir sy'n anelu at adferiad cynaliadwy i'r is-ranbarth.

*Atebwyd cwestiynau 4-7 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**C8 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch partneriaethau rhwng y cyngor hwnnw ac Awdurdod Datblygu Cymru? (OAQ16287)

**Andrew Davies:** Ni chefais drafodaeth o'r fath. Er hynny, mae cynrychiolwyr Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â datblygu economi'r ardal.

### Cyflawni Rhaglen Amcan 1

**C9 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog adrodd am y camau a gymerwyd hyd yma i gyflawni rhaglen Amcan 1 yng Nghymru? (OAQ16255)

**Andrew Davies:** Mae rhaglen Amcan 1 y Gorllewin a'r Cymoedd yn mynd rhagddi'n dda, ac mae dros £300 miliwn wedi'i ymrwymo i fwy na 470 o brosiectau drwy'r rhanbarth.

Caiff adroddiad chwarterol am hynt rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos nesaf.

### Effaith Globaleiddio

**C10 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch effaith globaleiddio ar yr economi a busnesau yng Nghymru? (OAQ16309)

**Andrew Davies:** Mae globaleiddio’n codi bygythiadau a chyfleoedd. Mae lefel y gystadleuaeth yn codi’n sylweddol ond mae’n agor meysydd marchnata newydd. Mae’n rhaid i Gymru godi a derbyn yr her. Rhaid i fusnesau fachu a manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dwf yr economïau sy’n datblygu: er enghraifft, ehangu’r UE, manteisio ar dechnoleg newydd a’r technolegau gwybodaeth a chyfathrebu.

**Agweddau Gwanaf Economi Cymru**

**C11 Kirsty Williams:** Pa asesiad y mae’r Gweinidog wedi’i wneud i weld pa agweddau ar economi Cymru sydd wanaf? (OAQ16335)

**Andrew Davies:** Mae’r dadansoddiad economaidd sy’n sail i ‘Cymru’n Ennill’ yn codi’r prif faterion sy’n ymwneud ag economi Cymru, yn seiliedig ar gymharu sbardunau economaidd o bwys â rhanbarthau eraill y DU ac â gwledydd eraill. Mae’n dangos bod ein heconomi yn tanberfformio, a bod cynnyrch mewnwladol crynswth y pen Cymru yn ddim ond 80 y cant o gyfartaledd y DU. Yn bennaf, mae hynny oherwydd bod gwahaniaethau rhwng cyfartaledd Cymru a’r DU o gyfran y bobl o oedran gwaith sydd â swyddi a’r diffyg cymharol o ran swyddi uchel eu cyflog, sef y strwythur galwedigaethol.

**Cymorth ar gyfer Pobl a Ddiswyddwyd**

**C12 Lynne Neagle:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i gynorthwyo pobl a gollodd eu gwaith yng Nghymru i ddod o hyd i swyddi newydd? (OAQ16333)

**Andrew Davies:** Yn ei strategaeth ‘Cymru’n Ennill’, mae Llywodraeth y Cynulliad yn esbonio sut y mae’n bwriadu darparu’r amodau iawn i alluogi busnesau a phobl i ffynnu, gan gynnwys drwy ddatblygu swyddi newydd a mwy hyfedr. Y Gwasanaeth Cyflogi sydd yn bennaf gyfrifol am helpu pobl i gael hyd i swyddi newydd. Yng Nghymru, mae’r Gwasanaeth Cyflogi yn cydweithio’n agos â Gyrfa Cymru, ELWa a’r WDA i sicrhau y rhoddir cymorth yn gydlynol ac effeithiol. Mae’r dull hwn o weithio mewn partneriaeth wedi’i atgyfnerthu’n ddiweddar gan fod y WDA ac ELWa wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

**Rhagolygon Gwaith yn y Bathdy Brenhinol**

**C13 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch rhagolygon gwaith yn y Bathdy Brenhinol? (OAQ16264)

**Andrew Davies:** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad cyson â staff uwch y Bathdy Brenhinol ac maent yn rhoi gwybod imi am ddatblygiadau, gan gynnwys y sefyllfa o ran cyflogi.

**Canolfannau Cyswllt Busnes**

**C14 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd i ni na fydd yr adolygiad o gymorth busnes yn arwain at gau unrhyw ganolfan Cyswllt Busnes? (OAQ16256)

**Andrew Davies:** Cafodd yr adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau cymorth a gychwynnwyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd fod dryswch yn y farchnad, fod cynnyrch a gwasanaethau yn amrywiol eu hansawdd ac nad oedd y trefniadau cyfredol i ddarparu o dan enw ‘Cyswllt Busnes’ bob tro yn bodloni anghenion cwsmeriaid. Rhoddwyd y cyfrifoldeb am wella’r gwasanaeth i Awdurdod Datblygu Cymru ac mae’r Cynulliad wedi rhoi sêl ei fendith ar y cynllun i alw Cyswllt Busnes ar y gwasanaeth porth yn unig yn y dyfodol. Gwahoddwyd tendrau am y gwasanaeth porth newydd. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 25 Mawrth. Ni wyddys eto ba geisiadau a fydd yn llwyddo.

**Statws Cyfredol Prosiectau Amcan 1 yn y Gorllewin a’r Cymoedd**

**C15 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar statws cyfredol prosiectau Amcan 1 yn y Gorllewin a’r Cymoedd? (OAQ16328)

**Andrew Davies:** Mae rhaglen Amcan 1 y Gorllewin a'r Cymoedd yn mynd rhagddi'n dda, ac mae dros £300 miliwn wedi'i ymrwymo i fwy na 470 o brosiectau drwy'r rhanbarth.

Caiff adroddiad chwarterol am hynt rhaglenni'r cronfeydd strwythurol ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd yr wythnos nesaf.

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Cyfanswm y Gwariant ar Hysbysebu Swyddi

**C8 Alun Cairns:** Beth fu cyfanswm y gwariant ar hysbysebu swyddi'r Cynulliad Cenedlaethol yn y cyfryngau? (OAQ16303)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Amcangyfrifir mai £800,000 fydd cyfanswm y gwariant yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

### Tanwariant a Ragwelir

**C9 Owen John Thomas:** Beth yw'r tanwariant a ragwelir yng nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol eleni? (OAQ16266)

**Edwina Hart:** Cyhoeddais eisoes fod lleihau tanwario ar draws cyllidebau'r Cynulliad ymhlith fy mhrif amcanion. Yr wyf yn ffyddiog y bydd y tanwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, y mae gan y Cynulliad lwyr ddisgresiwn drosto, yn sylweddol lai na'r 3 y cant a fu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

### Adroddiad Dyfarnu

**C10 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad dyfarnu ar yr achos rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Phartneriaeth Richard Rogers? (OAQ16325)

**Edwina Hart:** Mae'r holl arian a farnwyd yn ddyledus i Bartneriaeth Richard Rogers yn ôl penderfyniad yr arfarnwr wedi'i dalu. Fe'm cynghorwyd i beidio â sylwi ar rinweddau a diffygion y penderfyniad nac i wneud unrhyw gyfraniad at ddadl gyhoeddus gan fod perygl difrifol y byddai gwneud felly yn tanseilio safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru pe ceid achos cyfreithiol pellach.

### Amcangyfrif o Gost Adeilad Newydd y Cynulliad

**C11 Glyn Davies:** Beth yw'r amcangyfrif diweddaraf o gost adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ16308)

**Edwina Hart:** Nid oes modd rhoi amcan manwl o'r costau nes bod y tendrau i gwblhau cynllunio a chodi'r adeilad wedi dod i law. Er hynny, yn yr hysbyseb a roddwyd yn *Official Journal of the European Communities* ym mis Medi, amcangyfrifwyd y byddai'r gost yn fwy na £20 miliwn.

### Cynnydd yng Nghyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**C12 Phil Williams:** Pa gamau sydd wedi'u cymryd i sicrhau cynnydd yng nghyllideb y Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn cyfateb i'r cynnydd yn yr elfen Ewropeaidd a'r cynnydd yn 'arian cyfatebol' y sector cyhoeddus? (OAQ16271)

**Edwina Hart:** Rhoddais wybod i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei bod yn debyg y bydd angen mwy o arian i ymdrin â gwariant cyhoeddus i raglenni Ewropeaidd ym mlynyddoedd ariannol y dyfodol.

Penderfynaf ar lefel unrhyw gynnydd pan wyddys beth yw'r sefyllfa o ran alldro'r flwyddyn ariannol gyfredol.

### Niwed Amgylcheddol

**C13 Janet Ryder:** A ydyw'r Gweinidog wedi cael cais am gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol er mwyn talu am gostau glanhau ar ôl niwed amgylcheddol? (OAQ16272)

**Edwina Hart:** Cefais nifer o geisiadau o'r fath ac yr wyf wedi cyhoeddi y cafwyd sawl cynnydd sylweddol mewn gwariant. Rhoddir gwybod am y rhain i'r Aelodau yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Mae'r cynnydd mewn gwariant yn cynnwys £1.8 miliwn ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

*Tynnwyd cwestiynau 14 (OAQ16320) a 15 (OAQ16316) yn ôl.*